

**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWDYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH A DROS  
ZOOM AM 7.00 O'R GLOCH 07.09.26**

**9.1 YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Tegid John (Is-Gadeirydd), Mark Lewis.

**9.2 PRESENNOL**

Cyng. James Maxwell (Cadeirydd), Christopher Braithwaite, Reg Chapman, Edwina Evans, Wendy Williams, Simon Turner, Jane Emmerson, Giles Bentham, Lisa Robertson, Martin Hughes, a'r Cyng. Annwen Hughes a Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd).

'Roedd 2 o'r cyhoedd yn bresennol dros zoom a neb yn bresennol yn yr ystafell.

**Cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd**

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

**9.3 CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD.**

Cafwyd y cyhoeddiadau canlynol gan y Cadeirydd:-

Croesawodd y Cyng. Lisa Robertson i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyngor a dymunodd yn dda iddi yn y dyfodol. Fe arwyddwyd Dogfen Derbyn Swydd gan y Cyng. Robertson.

'Roedd ef ar Cyng. Reg Chapman a Simon Turner a Mrs Sheila Maxwell wedi cyfarfod a Kate Roberts a Megan Tanner o CADW i drafod y taliad oedd CADW yn ei fwriadu ei godi ar Roc Ardudwy flwyddyn nesa i ddefnyddio y castell.

Eisiau anfon llythyr arall i Heledd Fychan AS.

Wedi cyfarfod a Dysgu Oedolion Cymru i drafod y tir sydd dan berchnogaeth y Coleg gyda'r bwriad o adeiladu tai arno ag 'roedd archwiliad wedi cael ei gario allan ganddynt ynglyn ar gawl am dai.

Wedi cyfarfod George a Stephen John er mwyn trafod hyfforddiant peldroed ar gae chwarae Brenin Sior V a cafwyd wybod bod Clwb Ieuenctid Peldroed Dyffryn Ardudwy yn mynd i ddefnyddio y darn tir sydd wedi gael ei ffensio allan gan y clwb rygbi i hyfforddi peldroed.

**9.4 COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Gorffennaf 6ed 2026 fel rhai cywir.

**9.5 MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cofnodion.

**9.6 DATGAN BUDDIANT**

Datganodd y Cyng. Reg Chapman ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL

Datganodd y Cyng. Simon Turner ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL

Datganodd y Cyng. Martin Hughes ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL

Ni lofnodwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddynt am eu bod wedi gwneud hyn yn barod yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor a bod y diddordeb yn y mater hwn yn rhedeg yn barhaol.

Datganodd y Cyng. Christopher Braithwaite ddiddordeb yng nghais cynllunio 40 Heol y Bryn, Harlech ag fe arwyddwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddo a ni chymerodd ran pan drafodwyd y cais.

**9.7 MATERION YN CODI**

**A Cynllun Cyllideb**

Adroddwyd bod £32,699.00 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £41,164.75 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn 2026/27.

## **B HAL - CIC**

Derbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Reg Chapman mewn perthynas â'r sefyllfa ddiweddaraf yn ymwneud â HAL -

Rhaid i mi adrodd, ers y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor Cymuned, bod y datblygiadau wedi bod yn siomedig o araf. Ar hyn o bryd, rydym yn aros am gyfarfod gyda'r Pennaeth a Llywodraethwyr Ysgol Ardudwy i benderfynu a allai rhan fach o safle'r ysgol gael ei ddefnyddio i letya adeilad i'r Band Arian a rhoi safle clir ar gyfer datblygiad y gwesty. Mae cynrychiolwyr y band wedi dweud eu bod yn cefnogi datblygiad posibl y gwesty, cyn belled a bod darpariaeth o lety arall addas iddynt eu hunain yn cael ei godi. Mewn cyfarfod a drefnwyd gan y Gyng. Owen gyda chefnogaeth Lindsey Ellis Rheolwr Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, Cyngor Gwynedd, a Stephen Beech, Swyddog Cymorth Cymunedol, penderfynwyd edrych ar y posibilrwydd o ddarparu safle o dir sydd ar gael o Gyngor Gwynedd. Mae Lindsey Ellis wedi penderfynu bod yr ysgol yw'r dewis gorau ar gyfer ail-leoliad.

Ers y cyfarfod hwnnw mae Lindsey Ellis wedi ein hysbysu bod cyfarfod gyda'r Pennaeth a'r Bwrdd Llywodraethwyr yn angenrheidiol i symud hyn yn ei flaen gan nad yw Cyngor Gwynedd yn rheoli.

Rydym yn dal i aros i hyn gael ei drefnu.

Mae'r Datblygydd wedi nodi bod tebygolrwydd go iawn y byddant yn tynnu'n ôl oherwydd y camau amser hir a'r diffyg cefnogaeth gan Gyngor Gwynedd.

Mae Llywodraeth Cymru trwy Visit Wales yn dal i roi eu cefnogaeth i'r prosiect. Roeddwn i'n gobeithio awgrymu i gyfarfod y Cyngor hwn y gallem ddarparu sesiwn wybodaeth gyhoeddus am y datblygiad ac hefyd am gynigion ar gyfer maes Brenin Sior V. Fodd bynnag, cyn i ni drefnu cyfarfodydd a rhoi gobaith i'n cymuned, roeddwn i eisieu bod mewn cam lle'r oedd llwybr clir i'r datblygiad ymlaen, i gyflwyno syniad clir i bobl ar ble y byddai'r gwesty'n ffitio i'r safle, hyd yn oed cysyniad dylunio. Byddai'r datblygydd wedyn yn gallu symud tuag at y broses gynllunio.

Byddai hyn wedyn yn arwain at bob manteision economaidd, adfywio'r Stryd Fawr, swyddi lleol parchus trwy'r flwyddyn ac ati, ac nid oedd hyn yn ddim ond breuddwyd.

Oherwydd y dirywiad amser wrth ymchwilio i'r sefyllfa hon, rwy'n teimlo bod diffyg mawr o frwdfrydedd am brosiect arall eto yn Ardudwy. Ardal lle mae gwelliannau economaidd, trên clogwyn, ffordd osgoi Llanbedr a llawer o brosiectau eraill yn caniatáu iddynt ddiflannu tra bod prosiectau eraill mewn ardaloedd eraill o Gwynedd yn ffynnu. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i bob Aelod yn barod.

## **C Cae Chwarae Brenin Sior a Llyn y Felin**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Mr. Joe Patton yn datgan ei fod yn sefyll i lawr fel aelod o grwp cae chwarae Brenin Sior V oherwydd anghytundeb rhwng ef ar Cyng. James Maxwell a Reg Chapman. Hefyd yn datgan gan fod ei archwiliadau o cae chwarae Brenin Sior wedi cael eu cynnal bob amser ar ran y Cyngor er mwyn cefnogi'r cyfrifoldebau hynny, nid yw yn teimlo ei fod yn gallu parhau â'r arolygiadau hynny o dan drefniant lle byddai'r cyfrifoldeb am ddiogelwch y safle yn eistedd mewn lle arall.

'Roedd hefyd yn datgan o ganlyniad i symudiadau Mr Chapman a Mr Maxwell heno, ni fyddai yn cyflwyno am ddiogelwch y lle chwarae yn cyfarfod mis Medi o'r Cyngor Cymuned, ac ei fod yn camu yn nol o fod yn aelod o'r grwp Cae Chwarae Brenin Sior V.

Derbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Reg Chapman ynglŷn â maes chwarae Brenin George V - Mae'r grŵp ymddiriedolwyr diwygiedig yn datblygu cynlluniau a phrosiectau i adfywio'r maes.

Mae'n ceisio adborth gan y gymuned i ddeall sut y gall y maes ddarparu ar gyfer anghenion y cyhoedd o fewn y cyllidebau sydd ar gael. Bydd cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses drwy sesiwn agored yn y dyfodol agos.

Mae'r maes yn gyfan gwbl yn ased gwych. Yn anffodus, mae cynnal a chadw wynebâu chwarae a chyfarpar y maes chwarae mewn cyflwr gwael.

Mae'n annog iawn gweld bod galw cryf am y cae pel-droed a'r ardaloedd hyfforddi. Rydym yn gweithio gyda'r sefydliadau hyn i ddiwallu anghenion mewnol ac i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae'n calonogol iawn gweld bod galw cryf am y cae pel-droed a'r ardaloedd hyfforddi. Rydym yn gweithio gyda'r sefydliadau hyn i ddiwallu anghenion mewnol ac i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Yn y tymor byr rydyn ni wedi darparu pridd brig i leihau'r caeau ac yn ddiolchgar am gymorth gan sefydliadau lleol eraill mae'r glaswellt wedi cael ei dorri i lefel addas ar gyfer chwaraeon.

Mae'r maes chwarae mewn cyflwr gwael. Mae'r arwynebau diogelwch angen gwaith mawr. Rhaid tynnu un sleid oherwydd bod y coesau cefnogaeth wedi rhydu drwyddo. Bydd angen disodli'r siglenni iau o fewn 12 mis. Mae cylch dro newydd i'w osod yn ei le. Ni all gwelliant gael ei gyllido heblaw drwy geisio arian fel rhan o'r drafft datblygu cyffredinol. Mae angen sawl darn o offer, wedi eu gosod ar arwynebau mwy diogel, i ddarparu profiad boddhaol i'n plant lleol.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi cydnabod bod rhai mannau yn cael eu torri glaswellt ar yr un lefel â'r arwynebau chwarae ac nad yw hyn yn angenrheidiol ac mae'n niweidiol i'w bioamrywiaeth. Gan adeiladu ar waith cyfarwydd a wnaeth Joe Patton, ac yn gweithio gyda Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd, bydd mannau ar gyfer ail-weinyddio'n naturiol yn cael eu gosod yn bennaf o amgylch ymyl y Maes.

Rydym hefyd wedi nodi'r angen am gyfleusterau newid newydd fel rhan o unrhyw welliant mewn darparu chwaraeon. Cwrt tenis/Padel, trac beicio addasadwy/cwrs ffitrwydd. Bydd y rhain gyda phrosiectau eraill y gellir eu cyflawni yn sail i Raglen sylweddol "Cyfleusterau Ffit ar gyfer y Dyfodol" neu gynnig cyllid tebyg ar gyfer y Gymuned hon.

Datganodd y Cyng. Jane Emmerson ei bod wedi derbyn ymholiad yn gofyn a fyddai newid i'r ffordd os byddai y gwesty yn cael ei adeiladu a datganwyd na fyddai ddim newid.

Eisiau cysylltu gyda J. B. Pest Control i adael iddo wybod bod tyrchod yn nghae chwarae Brenin Sior V a Llyn y Felin ag angen eu gwaredu.

'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i bob Aelod yn barod.

Hefyd cafwyd yr adroddiad canlynol ynglŷn â maes chwarae Llyn y Felin gan y Cyng. Reg Chapman - mynychodd y Cyng. Jane Emmerson a minnau gyfarfod ar y safle i ddeallt y nifer o broblemau fel y manylir isod.

1 Nid yw'r giât fynediad yn cau'n dda ac mae hyn yn caniatáu i gŵn fynd i mewn.

2 Mae'r ffens post a wifren wedi'i difrodi ar ochor Llech

3 Mae arwyneb y gwellt mewn cyflwr peryglus, ar ôl difrod helaeth gan dyrchod

4 Mae safle'r darn mawr o gyfarpar chwarae angen ei dacluso cyn i ddarn newydd gael ei gomisiynu.

5 Yn gyffredinol, mae'r safle'n annymunol ac mae angen ystyried gosod tirlenwi meddal, coed ac ati fel rhan o gynllun gwelliant.

Mae angen cynnal cyfarfod brys o'r is-bwyllgor Safleoedd Gwyrdd i adolygu a chostio'r gwaith hwn a cytunwyd byddai cyfarfod yn cael ei gynnal unwaith bydd y Cyng. Reg Chapman yn nol o'i wyliau ag hefyd rhoddwyd caniatad i'r Cyng. Christopher Braithwaite ymuno ar is-bwyllgor hwn.

'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i bob Aelod yn barod.

#### **9.11 MATERION CYNGOR GWYNEDD**

**Datganodd y Cyng. Gwynfor Owen yn ddi rybudd ei fod ddim yn hapus bod yr eitem uchod wedi cael ei newid i fod ar ddiwedd y cyfarfod a nid oedd yn fodlon eistedd drwy'r cyfarfod er mwyn rhoid ei adroddiad ag yn datgan unai bod yn cael rhoid ei adroddiad yn nawr neu os nag oedd hyn yn bosib ei fod yn gadael y cyfarfod.**

**Fe wnaeth y Cadeirydd adael iddo rhoid ei adroddiad ond nid oedd yr Aelodau i gyd yn hapus hefo hyn a bydd yr eitem yn cael ei gadael ar ddiwedd y cyfarfod o hyn ymlaen. Hefyd cytunwyd bod y Cynghorwyr yn anfon eu adroddiadau i'r Aelodau o flaen llaw cyfarfod y Cyngor.**

Cafwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Gwynfor Owen – adroddodd ei fod wedi eisïau cyfleu ei ddiolchiadau i'r Gwasanaeth Tan am weithio mor galed adeg y tannau gwyllt yn y Rhinogydd. Datganodd ei fod ddim yn hapus bod Aelodau o Fwrdd HAL yn rhoid bai ar Gyngor Gwynedd hefo'r oedi a ddim yn gwneud yr hyn mae Bwrdd HAL yn gofyn iddynt wneud ag ei fod wedi cynnal sawl cyfarfod gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn a HAL. Cafwyd wybod bod Swyddogion yn hapus i fynychu cyfarfod rhithiol i drafod y problemau gyrru sydd yn Harlech. Cafwyd wybod bod gweithwyr Harbwr Porthmadog yn gyfrifol am y gwaith ar y mor i fyny hyd at Llandanwg ag ei fod wedi bod allan mewn cwch gyda hwy ag eu bod wedi pointio allan gwahanol beryglon iddo. Wedi cael cwynion bod camper vans yn aros yn maes parcio Min y Don dros nos, wedi bod yn gweld gardd synhwyrâu Joe Patton gyda Lis Saville Roberts ag hefyd wedi cyfarfod Andrea Bowen gyda Lis Saville Roberts er mwyn trafod cael creflun i Catrin yn Harlech.

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Annwen Hughes – adroddodd ei bod wedi ymweld ar arddangosfa o Capel Salem yn yr Hen Lyfrgell ag eisïau longyfarch y trefnwyr am arddangosfa gwyh, 'roedd wedi cael ei chopio i mewn i ohebiaeth rhwng perchennog 18 Parc Bron y Graig a Chyngor Gwynedd ag yn gofyn pwy oedd yn gyfrifol am top gwyneb y graig sydd ger y ty. 'Roedd Cyngor Gwynedd wedi cario allan archwiliad o'r safle a mae yn edrych fel bod y tir sydd ar ben gwyneb y graig tu ol i'r ty ag o flaen y tir dan berchnogaeth y ffarmwr ddim wedi ei gofrestru.

#### **D Seddi Cyhoddus**

Adroddodd y Clerc bod y mater hwn wedi cael ei rhoid ar yr agenda am ei bod wedi derbyn e-bost gan Mr. Cecil Carter ynghyd a lluniau o seddi ar hyd Ffordd Uchaf oedd mewn cyflwr gwael ag angen sylw brys. Cafwyd wybod gan y Cadeirydd ei fod wedi gofyn i Mr. Dylan John gario allan y gwaith o adnewyddu y seddi sydd mewn cyflwr gwaethaf yn gyntaf.

## **E Cyfathrebu**

'Roedd y Cyng. Jane Emmerson wedi gofyn i'r eitem hwn gael ei roid ar yr agenda ag 'roedd yn gofyn a fyddai yn bosib i'r is-bwyllgorau gyfarfod yn rheolaidd, eisiau creu tudalen webylfr newydd i'r Cyngor a chytunodd y Cyng. Giles Bentham geisio gwneud hyn.

'Roedd y Cyng. Jane Emmerson wedi gofyn i'r eitem hwn gael ei roid ar yr agenda ag 'roedd yn gofyn a fyddai yn bosib i'r is-bwyllgorau gyfarfod yn rheolaidd, eisiau creu tudalen webylfr newydd i'r Cyngor a chytunodd y Cyng. Giles Bentham geisio gwneud hyn. Cytunwyd y byddai y Cyng. Christopher Braithwaite yn llunio ffurflen cais am grant a'i phostio ar dudalen webylfr y Cyngor. Hefyd symud trafodaethau am geisiadau ariannol i'r cyfarfod ym mis Tachwedd.

## **F Materion a Gynigir**

Aeth y Cadeirydd o amgylch y bwrdd gan ofyn i bob Aelod beth oeddynt eisiau ei gynnwys yn yr agenda yn y dyfodol ag fe gafwyd yr ymatebion canlynol –

**Cadeirydd** – ddim i'w ychwanegu.

**Cyng. Martin Hughes** – ddim i'w ychwanegu.

**Cyng. Christopher Braithwaite** – yn gofyn am ganiatad y Cyngor i rannu adroddiad Play Inspection Company gyda'i gyd weithwyr a rhoddwyd caniatad i hyn gael ei wneud. Hefyd datganodd bod angen cario allan archwiliad bob mis o'r offer chwarae a byddai yn edrych a oedd rhywun ar gael i wneud y gwaith hyn.

**Cyng. Simon Turner** - mae'n mynd i dderbyn £1,000 gan Gronfa Datblygu Digwyddiadau Cyngor Gwynedd i brynu mwy o oleuadau i oleuo'r dref yn y Nadolig a chytunwyd y gallai gario ymlaen i archebu y goleuadau hyn. Hefyd wedi derbyn grant o £7,000 i archebu arwyddion ond bod angen mwy o arian i archebu yr arwyddion a cytunwyd i drafod y mater yng nghyfarfod nesa y Cyngor. Bod Visit Harlech yn fodlon gwerthu eu gwefan i'r Cyngor ag rhwydweithio y wefan hon a gwefan presennol y Cyngor gyda'i gilydd. Rhoid y mater ar agenda mis nesa

**Cyng. Jane Emmerson** – ddim i'w ychwanegu.

**Cyng. Giles Bentham** – ddim i'w ychwanegu.

**Cyng. Lisa Robertson** – ddim i'w ychwanegu.

**Cyng. Wendy Williams** – nawr bod yr arwyddion 20 m.y.a wedi cael eu tynnu ger groesffordd ystad dai Ty Canol bod angen arwyddion "plant yn chwarae" gael eu gosod yn eu lle. Cytunodd y Cyng. Annwen Hughes edrych i mewn i'r mater hwn.

**Cyng. Edwina Evans** – ddim i'w ychwanegu.

## **G Adroddiadau Is-Bwyllgorau – Cyllid, Ardal Gwyrdd, Biomrywiaeth, Isadeilad, Projectau, Digwyddiadau**

**Is-bwyllgor cyllid** – adroddodd y Cadeirydd bod yr is-bwyllgor hwn wedi cyfarfod ar y 3ydd o'r mis hwn ond nid oedd dim materion i'w drafod.

**Is-bwyllgor ardal gwyrdd** – adroddwyd bod yr is-bwyllgor hwn heb gyfarfod eto ond bydd yn cynnal cyfarfod unwaith fydd y Cyng. Reg Chapman adra o'i wyliau.

**Is-bwyllgor biomrywiaeth** – adroddodd y Cadeirydd bod ef, y Cyng. Reg Chapman a Mr. Joe Patton wedi cyfarfod Mr. Hywyn Williams, Cyngor Gwynedd ag eu bod wedi cytuno i dorri i lawr y tyfiant ger ochor y wal wrth y golff, gadael llain ger y safle rygbi i dyfu. Eisiau edrych a oes unrhyw beth a fyddai yn gallu cael ei wneud gyda'r darn tir ger cae chwarae Llyn y Felin.

**Is-bwyllgor Isadeilad** – Adroddodd y Cadeirydd a fyddai yn bosib i'r Cyngor gymeradwyo gosod cylchfan yn ôl y pris o £20,060 (a oedd yn cynnwys TAW) a oedd wedi ei dderbyn gan gwmni GL Jones ag hefyd i dynnu'r sleid oherwydd bod y sylfaen yn chwalu. Adroddwyd ymhellach ynglyn ar mater hwn a datganwyd bod y pris wedi codi i £21,060 oherwydd ei fod wedi dod i'r amlwg bod angen tynnu un o'r slides oherwydd bod y coesau wedi rhydu. Cytunodd pawb i dderbyn y pris hwn arwahan i'r Cyng. Lisa Robertson a oedd yn atal oherwydd mae hwn oedd ei chyfarfod cyntaf o'r Cyngor a nid oedd yn ymwybodol o'r mater hwn.

**Is-bwyllgor Projectau** – ddim i'w adrodd

**Is-bwyllgor digwyddiadau** – Adroddodd y Cyng. Simon Turner bod goleuo Harlech yn digwydd ar yr 28ain o Dachwedd ynghyd a noson siopau hwyr a parade lanteri ag hefyd ei fod yn mynd i ymweld a busnesau y dref i ofyn am gyfraniad ariannol ganddynt.

## **9.8 CEISIADAU CYNLLUNIO**

### **Gosod arae solar wedi'i gosod ar y ddaear (14 panel) Cynfal, 40 Heol y Bryn, Harlech (NP5/61/83E)**

Cefnogi y cais hwn.

### **Codi tŷ haf pren newydd ac ail-leoli sied bresennol Bryn Siriol, Ffordd Uchaf, Harlech (NP5/61/665A)**

Cefnogi y cais hwn.

## **9.9 ADRODDIAD Y SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL**

Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod £62,545.37 yn y cyfrif rhedegol a £116,277.40 yn y cyfrif cadw.

### **Taliadau yn ystod y mis**

|                         |   |           |   |                                                                     |
|-------------------------|---|-----------|---|---------------------------------------------------------------------|
| Dwr Cymru               | - | £130.25   | - | dwr toiledau ger y neuadd goffa.                                    |
| Dwr Cymru               | - | £81.71    | - | tap dwr y rhandiroedd                                               |
| Mr. G. J. Williams      | - | £430.00   | - | torri gwair cae peldroed a cae chwarae Brenin Sior                  |
| Mr. Meirion Griffith    | - | £270.00   | - | torri gwair y fynwent gyhoeddus                                     |
| Mr. Meirion Griffith    | - | £90.00    | - | torri gwair amrywiol lefydd                                         |
| Mr. Meirion Griffith    | - | £45.00    | - | torri gwair cae chwarae Llyn y Felin                                |
| Mr. Meirion Griffith    | - | £515.00   | - | torri gwair y llwybrau cyhoeddus o amgylch yr ardal                 |
| Mr. Lee Warwick         | - | £369.34   | - | glanhau toiledau ger y neuadd goffa (Gorffennaf ag Awst)            |
| Mr. Lee Warwick         | - | £50.00    | - | strimio o amgylch y rhandiroedd                                     |
| Cyngor Gwynedd          | - | £420.00   | - | archwiliad mewnol 2025/26                                           |
| Mrs Annwen Hughes       | - | £882.00   | - | (cyflog 6 mis) + £607.11 (costau 6 mis) = £1,489.11                 |
| Mr. Joe Patton          | - | £112.04   | - | nwyddau i'r ardd gymunedol (allan o gyfrif cae chwarae Brenin Sior) |
| Christopher Braithwaite | - | £42.75    | - | nwyddau i'r toiledau ger y neuadd goffa                             |
| Tree Fella              | - | £1,200.00 | - | tocio cpedan yn Bron y Graig                                        |
| Mr. James Maxwell       | - | £131.98   | - | pridd i cae chwarae Brenin Sior                                     |

### **Ceisiadau am gymorth ariannol**

Hamdden Harlech ac Ardudwy - £1,700.00

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. Christopher Braithwaite a wnaeth y Cyng. James Maxwell gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad i'r Clerc/Trysorydd i'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

### **Derbyniadau yn ystod y mis**

|                       |   |            |   |                           |
|-----------------------|---|------------|---|---------------------------|
| Pritchard a Griffiths | - | £2,025.00  | - | claddu Blodwen Iona Evans |
| Cyllid a Thollad      | - | £1,593.20  | - | ad-daliad TAW             |
| Cyngor Gwynedd        | - | £42,500.00 | - | hanner y precept          |

### **Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

|                        |   |         |   |                                    |
|------------------------|---|---------|---|------------------------------------|
| Catrin Soraya Williams | - | £155.00 | - | gwasanaeth cyfieithu               |
| Japanese Knotweed      | - | £350.00 | - | cytundeb blyneddol (talwyd 3.8.26) |
| SLCC                   | - | £84.00  | - | tal aelodaeth (talwyd 3.8.26)      |

## **9.10 GOHEBIAETH**

### **A Cyngor Gwynedd – Adran Prifffyrdd**

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bydd ffordd Twtil yn cael ei chau ar y 10ed o'r mis hwn ar sail iechyd a diogelwch i'r cyhoedd yn ystod gwaith ar geblau uwchben. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i bob Aelod yn barod.

### **B Radio Ysbyty Gwynedd**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn gofyn am gymorth ariannol gan y Cyngor. Cytunwyd i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor gyda gweddill y ceisiadau. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i bob Aelod yn barod.

**C Rosy Berry**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn gofyn a fyddai posib gosod bin ysbwriel ar Ffordd Penllech. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i bob Aelod yn barod.

**D Clwb Triathlon Harlech**

Wedi derbyn e-bost gan trefnwyr yr uchod yn hysbysu y Cyngor o trefniadau y duathlon a fydd yn cymeryd lle ar y 18ed o fis nesa. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i bob Aelod yn barod.

**E Mrs J. Cole**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynglyn ag archebu pabi coch mawr ag yn gofyn a oedd y Cyngor wedi eu archebu eto fel a oedd wedi cael ei gytuno yng nghyfarfod mis Mawrth o'r Cyngor. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i bob Aelod yn barod. Cytunwyd bod y Cadeirydd yn cysylltu gyda Mr. Graham Perch yn gofyn iddo archebu 10 o'r pabi coch mawr ar ran y Cyngor.

**F Cyngor Gwynedd – Adran Priffyrdd**

Wedi derbyn llythyr gan yr adran uchod ynglyn a gwaith sydd yn cael ei gario allan yn yr ardal yn ystod y mis. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i bob Aelod yn barod.

**G Un Llais Cymru**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynglyn a dyddiadau hyfforddiant sydd yn cael eu cynnal o fis Awst hyd at mis Rhagfyr. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i bob Aelod yn barod.

**ARWYDDWYD.....Cadeirydd**

**DYDDIAD..... 905**